

At: Aelodau Cyngor Ymgynghorol
Sefydlog ar Addysg Grefyddol
(CYSAG)

Dyddiad: 6 Hydref 2020

Deialu 01824 712568
Union:

e-bost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Syr / Fadam

Fe'ch gwahoddir i ddod i gyfarfod o'r **CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)** am **10.00 am, DYDD MERCHER, 14 HYDREF 2020** yn **TRWY GYFRWNG FIDEO**.

SYLWCH: YN SGIL Y CYFYNGIADAU AR DEITHIO A'R ANGEN I GADW PELLTER CYMDEITHASOL, NI GYNHELIR Y CYFARFOD HWN YN EI LEOLIAD ARFEROL. BYDD YN GYFARFOD O BELL TRWY FIDEO-GYNADLEDDA AC NI FYDD AR AGOR I'R CYHOEDD.

Yn gywir

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau cyfreithiol a Democrataidd

AGENDA

MYFYRDOD TAWEL

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF (Tudalennau 5 - 8)

Derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod CYSAG Sir Ddinbych a gynhaliwyd 5 Chwefror 2020 (copi'n amgaaedig).

- 5 ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYSAG 2019/20** (Tudalennau 9 - 20)
Ystyried adroddiad a chymeradwyo Adroddiad Blynyddol drafft CYSAG 2019/20 (copi'n amgaeedig).
- 6 DADANSODDIAD O ADRODDIADAU AROLYGU** (Tudalennau 21 - 24)
Derbyn dadansoddiad o Adroddiadau Arolygu diweddaraf Estyn (copi'n amgaeedig).
- 7 CWRICWLWM CYMRU 2022** (Tudalennau 25 - 26)
Diweddarau CYSAG ar gynnydd Llywodraeth Cymru ac ysgolion yn paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd.
- 8 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**
I'w gadarnhau.

AELODAETH

Cynghorwyr yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych

Ellie Chard
Tony Flynn
Emrys Wynne

Rachel Flynn
Cheryl Williams

Yn cynrychioli Enwadau Crefyddol

Mr. Dominic Oakes
Y Parch. B H Jones
Y Parch. Martin Evans-Jones
Mary Ludenbach

Is-Gapten Sian Radford
Jennie Downes
Collette Owen

Yn cynrychioli Cymdeithasau Athrawon

Mrs C Harmsworth

Ms Ali Ballantyne

Aelodau Cyfetholedig

T. Ap Siôn

COPIAU AT:

Bob Cynghorydd er gwybodaeth
Y Wasg a Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd yn Ysgol Gatholig Crist y Gair , Cefndy Road, Y Rhyl, LL18 2EU, Dydd Mercher, 5 Chwefror 2020 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cyngorwyr Ellie Chard, Tony Flynn, Rachel Flynn, Cheryl Williams, Parch Brian H Jones, Ali Balentine

HEFYD YN BRESENNOL

Phil Lord (Ymgynghorydd AG), Graham French (Prifysgol Bangor: Darlithydd Addysg ac Arweinydd Ôl-raddedig ar gyfer Ysgol Addysg a Datblygiad Dynol) a Gweinyddwr Pwyllgorau (RTJ)

1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Y Cyngorwyr Rachel Flynn – datganodd gysylltiad personol oherwydd bod ei mab yn mynd i ysgol yn Sir Ddinbych.

3 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Diolchodd y Cyngorwyr Ellie Chard i Ysgol Crist y Gair am ganiatáu'r Pwyllgor i gynnal eu cyfarfod yn yr ysgol, ochr yn ochr â chael taith o gyfleusterau'r ysgol newydd.

Rhoddodd yr Ymgynghorydd A.G. wybod i'r pwyllgor na fyddai'r cyfarfodydd CYSAG arfaethedig ar y cyd rhwng Conwy a Sir Ddinbych yn digwydd, a byddai cyfarfodydd ar wahân yn digwydd fel a drefnwyd.

Ymddiheurodd y Cyngorwyr Rachel Flynn am beidio â bod yn bresennol yn y cyfarfodydd diwethaf, gan nad oedd hi'n ymwybodol ei bod yn aelod.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod CYSAG a gynhaliwyd 16 Hydref 2019 i'w cymeradwyo.

***PENDERFYNWYD** y dylai CYSAG gadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 16 Hydref 2019 fel cofnod cywir.*

5 HYFFORDDIANT ATHRAWON YFORY CABAN AC ADDYSG GREFYDDOL

Rhoddodd Graham French (GF) – Prifysgol Bangor: Darlithydd Addysg ac Arweinydd Ôl-raddedig ar gyfer Ysgol Addysg a Datblygiad Dynol, gyflwyniad i'r pwyllgor a dynnodd sylw at sut mae Caban (Partneriaeth Gogledd Cymru Bangor/Caer) yn hyfforddi athrawon yfory gyda ffocws ar Addysg Grefyddol.

Roedd y bartneriaeth wedi'i hanelu at athrawon newydd ar draws y rhanbarth yn gwbl gymwys i gyflawni'r targedau uchelgeisiol a osodwyd gan Gymru ar gyfer ei hansawdd addysg. Cafodd y pwyllgor wybod bod partneriaethau eraill ar draws Cymru, fodd bynnag, roedd Caban yn bartneriaeth a weithiodd yn dda oherwydd y lleoliad daearyddol.

Cafodd Aelodau wybod am Ein Rhanbarth ar Waith a'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth. Roedd hwn yn ddull newydd o hyfforddiant, yn wahanol i'r hen ddull o system ticio bocsys, roedd y system newydd yn fath o 'basbort' a oedd yn cadw data i'r athrawon a'u sgiliau. Roedd gan y Safonau Proffesiynol bum safon allweddol a oedd yn canolbwyntio ar elfennau allweddol gwaith pob athro, o'r athro dan hyfforddiant i arweinydd ysgol profiadol. Cyflwynwyd y dull i sicrhau'r gobaith y byddai athrawon yn aros mewn addysg am fwy na chlyfnod o bum mlynedd.

Holodd y pwyllgor GF o ran sut y cofnodwyd y data i athrawon, ac a oedd gan lywodraethwyr ysgol fynediad at yr wybodaeth. Mewn ymateb, rhoddodd GF wybod i'r pwyllgor bod yr wybodaeth yn cael ei chofnodi gan athrawon ar Ein Rhanbarth ar Waith, a oedd yn 'borthorion' i'r wybodaeth. O ran pwy allai weld y wybodaeth, disgrisiwn athrawon oedd rhannu'r wybodaeth ai peidio. Cafodd y pwyllgor sicrhwydd hefyd fod yr holl wybodaeth yn cael ei chadw'n ddiogel ac yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol.

Rhoddodd GF wybod i'r pwyllgor bod sawl ysgol a oedd wedi'u nodi ag arferion da o ran dysgu a denu athrawon newydd. Roedd ffocws ar rwydweithio ysgolion i ganiatáu'r arferion hyn i gael eu rhannu yn eu plith.

Cafodd y pwyllgor wybod hefyd am y Sefydliad Cydweithredol er Ymchwil i Addysg, Tystiolaeth ac Effaith (CIEREI), a oedd yn sefydliad cydweithredol, dwyieithog, amlddisgyblaethol, i greu tystiolaeth ymchwil gyda'r prif nod o effeithio'n gadarnhaol ar ddysgu a lles i blant drwy ysgolion. Nod y CIERI oedd

- Adeiladu cymuned ymchwil fywiog a fyddai'n llywio arfer addysgol cyfredol, rhaglenni addysg gychwynnol i athrawon a datblygiad proffesiynol parhaus athrawon
- Gweithio'n gydweithredol ac yn strategol gyda grwpiau presennol a chanolfannau sy'n cynnal ymchwil addysgol
- Datblygu a chryfhau sgiliau a gwybodaeth athrawon ac arweinwyr ysgol mewn arfer addysgol yn seiliedig ar dystiolaeth

Diolchodd y pwyllgor i GF am yr wybodaeth helaeth yn y cyflwyniad. Rhoddodd wybod i'r pwyllgor, os oeddent yn dymuno cael copi o'r cyflwyniad, y byddai'n fwy na hapus ei gylchredeg i aelodau.

PENDERFYNWYD bod y pwyllgor yn nodi'r adroddiad ar Hyfforddi Athrawon Yfory, Caban ac Addysg Grefyddol.

6 FFRAMWAITH DRAFFT CEFNOGI ADDYSG GREFYDDOL

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd A.G. adroddiad ar y Fframwaith Cefnogi Addysg Grefyddol Drafft (a gylchredwyd yn flaenorol). Roedd y fframwaith yn ychwanegiad at Gwricwlwm Cymru. Gobaith Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Cyngorau Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol Cymru (CCYSAGC) oedd y byddai'r fframwaith yn dod yn Faes Llafur Cytunedig yr Awdurdodau Lleol o 2022.

Roedd y fframwaith ategol hwn yn cynnig rhagor o wybodaeth am sut y gellid dysgu addysg grefyddol o fewn y Dyniaethau. Cafodd ei ysgrifennu gan ymarferwyr ac arbenigwyr addysg grefyddol, a'i gynhyrchu gan Lywodraeth Cymru. Roedd ethos ac athroniaeth y fframwaith hwn yn cyfateb i hynny a gafwyd yng Nghwricwlwm Cymru. Roedd addysg grefyddol yn ffurfiol rhan o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau o fewn Cwricwlwm newydd Cymru. Roedd y dyniaethau'n cynnwys addysg grefyddol, astudiaethau busnes, daearyddiaeth, hanes ac astudiaethau cymdeithasol.

Roedd cysylltiadau clir a rhyngddibyniaethau rhwng y Dyniaethau a'r pum maes arall o ddysgu a phrofiad.

Roedd pob maes dysgu a phrofiad wedi'u dylunio i weithredu gyda'i gilydd fel rhan o gwricwlwm hollataidd. Dylai dysgu fod yn gydlynol ac wedi'i gynllunio ar draws yr holl feysydd gwahanol, gan adeiladu ar gysylltiadau cynhenid, dibyniaethau a rhyngddibyniaethau. Dylid defnyddio'r cysylltiadau hyn wrth gynllunio cwricwlwm, gydag ymarferwyr yn gweithio'n greadigol ac yn gydweithredol i gefnogi bod dysgwyr yn gwreiddu pedwar nod y cwricwlwm. Cafwyd cyfleoedd digonol ar gyfer addysg grefyddol ar draws pob maes dysgu a phrofiad.

Holodd y pwyllgor a oedd y fframwaith yn berthnasol i ysgolion a oedd wedi'u hariannu gan lywodraeth leol. Eglurodd yr ymgynghorydd ei fod yn ofyniad statudol, ac y byddai'n cael ei ddysgu ledled Cymru, i bob dysgwr o 3 i 16 oed.

Fe wnaeth y pwyllgor ganmol yr agwedd gadarnhaol yn y fframwaith newydd, holwyd a allai addysg grefyddol gael agwedd leol ar y dysgu, ochr yn ochr ag agwedd Cynefin, y cyffyrddwyd arno yn y fframwaith, ac y byddai'r agwedd hon yn gwneud addysg yn fwy plerus, wrth ddysgu am yr ardal leol.

PENDERFYNWYD bod CYSAG yn cefnogi'r adroddiad a'i gynnwys ac i gynnwll cyfarfod CYSAG i adolygu'r fframwaith drafft.

7 LLWYDDO AR GYDWEITHIO RHWNG CYSAG CONWY A SIR DDINBYCH

Ni thrafodwyd yr eitem hon, oherwydd fe gytunwyd y byddai cyfarfodydd ar wahân yn parhau.

8 NEWYDDLEN CYSAG

Fe wnaeth yr Ymgynghorydd AG gylchredeg copïau i Aelodau o'r Newyddlen. Unwaith y byddai'r newyddlen wedi'i chyfieithu, byddai'n cael ei chylchredeg i bob ysgol. Y nod oedd cynhyrchu o leiaf un newyddlen bob blwyddyn. Y prif reswm dros y cylchrediad blynyddol oedd y cyfyngiadau ariannol a'r capasiti gweithio.

Fe wnaeth y pwyllgor ganmol y newyddlen a chefnogi'r cynnwys i'w gylchredeg i ysgolion awdurdod lleol.

PENDERFYNWYD bod CYSAG yn cefnogi'r newyddlen i'w chylchredeg i ysgolion, unwaith roedd fersiwn dwyieithog ar gael.

9 HOLIADUR YSGOLION CYSAG

PENDERFYNWYD bod y pwyllgor yn cytuno ar y cwestiynau yn holiadur ysgolion CYSAG i'w gylchredeg i ysgolion, unwaith roedd fersiwn dwyieithog ar gael.

10 CCYSAGC

PENDERFYNWYD bod y pwyllgor yn nodi cofnodion y cyfarfod CCYSAGC.

11 DYDDIAD CYFARFODYDD NESAF SIR DDINBYCH

Nodwyd dyddiadau cyfarfodydd nesaf CYSAG.

Cyngor Sir Ddinbych Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)		
Dyddiad y cyfarfod:		14 Hydref 2020
Eitem ar y Rhaglen:	5	ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYSAG 2019/20
<u><i>Cefndir yr Adroddiad:</i></u>		
Mae'n ofyniad statudol ar y CYSAG i lunio Adroddiad Blynyddol o'i waith a chyflwyno'r adroddiad hwn i AdAS erbyn 31 Rhagfyr.		
<u><i>Pwrpas yr Adroddiad:</i></u>		
Nodi a chofnodi gwaith y CYSAG yn ystod y flwyddyn, o fis Medi 2019 tan fis Gorffennaf 2020.		
<u><i>Argymhellion:</i></u>		
<ul style="list-style-type: none"> ▪ Cymeradwyo'r adroddiad, yn amodol ar unrhyw newid, fel cofnod cywir ▪ Gofyn i'r ALL gyfieithu'r adroddiad i'r Gymraeg, a'i anfon at bob ysgol a choleg yn „Sir Ddinbych, ac unrhyw sefydliad arall yn unol â'r gyfraith ac fel y nodwyd yn yr adroddiad 		

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad Blynyddol

Cyngor Ymgynghorol
Sefydlog
ar Addysg Grefyddol Sir
Ddinbych

2019-20

Rhagair

Rôl y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol:

Prif rolau CYSAG yw:

- Cyngori'r Awdurdod Lleol ar faterion sy'n ymwneud ag Addysg Grefyddol a chydaddoli, neu Ddatblygiad Ysbrydol a Moesol;
- Ystyried ceisiadau gan Benaethiaid i ryddhau eu hysgolion o'r gofynion statudol bod natur gyffredinol Cydaddoli yn gyfan gwbl neu'n bennaf Gristnogol (gelwir ceisiadau o'r fath yn 'Benderfyniadau');
- Ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Lleol adolygu ei Faes Llafur y Cytunwyd arno;
- Monitro'r ddarpariaeth Addysg Grefyddol, cydaddoli a datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn ysgolion yr Awdurdod Lleol;
- Rhoi cyngor ynglŷn â'r maes llafur Addysg Grefyddol y cytunwyd arno gan athrawon, gan gynnwys y dewis o ddeunyddiau ar gyfer athrawon;
- Cyngori'r Awdurdod Lleol ynglŷn â darparu hyfforddiant ar gyfer athrawon (mewn Addysg Grefyddol);
- Ystyried cwynion am y ddarpariaeth Addysg Grefyddol a chydaddoli y mae'r Awdurdod Lleol yn eu cael.
- Cyhoeddi Adroddiad Blyneddol ar ei waith.

Cyfansoddiad y CYSAG:

Mae'r gofynion statudol ar gyfer sefydlu CYSAGau yn gofyn am dri phwyllgor o aelodau:

- Cynrychiolwyr o enwadau Cristnogol neu grefyddau eraill a'u henwadau'n adlewyrchu prif draddodiadau crefyddol yr ardal;
- Cynrychiolwyr sy'n athrawon;
- Cynrychiolwyr y Cyngor Sir.

Mae hawl hefyd i gyfethol aelodau.

CYNNWYS

	Tud Rhif:
1. Crynodeb Gweithredol.	2
2. Cyngor a roddwyd i'r ALL:	3-5
a) Addysg Grefyddol a'r Maes Llafur y Cytunwyd arno	3
b) Dulliau addysgu, dewis o ddeunyddiau addysgu a darparu Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon	3-4
c) Cydaddoli	4-5
3. Materion Eraill:	5-6
a) Materion lleol	5
b) Materion cenedlaethol:	5-6
i. Estyn	
ii. Addysg Addysg a Sgiliau	
iii. Cymdeithas Cyngorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru (CYSAGau)	
c) Cwynion	6
4. Atodiadau:	7-8
a) Cyfansoddiad y CYSAG	7
b) Nifer a dyddiadau cyfarfodydd	8
c) Sefydliadau sy'n derbyn yr adroddiad	8

1. Crynodeb Gweithredol

Tudalen 14

Crynodeb Gweithredol		
<i>Pynciau/Materion:</i>	<i>Cyngor a roddwyd:</i>	<i>Gweithredwyd gan yr ALL:</i>
Ynghylch: Maes Llafur y Cytunwyd arno	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r gynhadledd ar y maes llafur y cytunwyd arno yn dal wedi'i ohirio ar gyngor CYSAG, oherwydd bod y cwricwlwm yn cael ei ddiwygio. 	✓
Ynghylch : Safonau	<ul style="list-style-type: none"> Ar ôl ystyried Adroddiadau Arolygon, anfonir llythyrau at ysgolion yn eu llongyfarch am y nodweddion da. 	✓
Ynghylch : Dewis o Ddeunyddiau Addysgu	<ul style="list-style-type: none"> Dim arweiniad ffurfiol, ond mae'r gefnogaeth ychwanegol a chanllawiau ar gyfer y Maes Llafur y Cytunwyd arno'n cynnwys cyfeiriad at rai deunyddiau addysgu. 	✓
Ynghylch : Darparu TGCh	<ul style="list-style-type: none"> Cafodd yr Aelodau gyflwyniad gan Ddarlithydd Prifysgol Bangor ynghylch hyfforddiant Partneriaeth Caer/Bangor Gogledd Cymru athrawon yfory. 	✓
Cydaddoli	<ul style="list-style-type: none"> Ar ôl ystyried Adroddiadau Arolygon, anfonir llythyrau at ysgolion yn eu llongyfarch am y nodweddion da. 	✓
Materion Eraill: Lleol	<ul style="list-style-type: none"> Parhaodd CYSAG i gyfarfod mewn ysgolion uwchradd lleol eleni. Mae Aelodau'n parhau i drafod y ffordd orau o fonitro safonau mewn ysgolion. 	✓ ✓
Materion Eraill: Cenedlaethol	<ul style="list-style-type: none"> Bod yr aelodau'n cael eu diweddarau'n rheolaidd ynglŷn ag Adroddiadau Arolygon Estyn neu ddogfennau'n ymwneud ag Addysg Grefyddol a Chydaddoli. Bod yr Aelodau'n cael gwybod am ddatblygiadau a mentrau a gynhelir gan yr Adran Addysg a Sgiliau. Trafododd yr Aelodau a rhoddwyd adborth ar ddau Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru. Bod y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol yn cynnal ei aelodaeth o Gymdeithas Cyngorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru, cynrychiolwyr yn mynychu ac yn adrodd yn ôl ar gyfarfodydd y gymdeithas. 	✓ ✓ ✓ ✓
Materion Eraill: ychwanegol	<ul style="list-style-type: none"> Dim materion ychwanegol eraill. 	
Cwynion	<ul style="list-style-type: none"> Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion. 	

2. Cyngor a roddwyd i'r Awdurdod Lleol

b. Addysg Grefyddol:

i. Y Maes Llafur y Cytunwyd arno

Mabwysiadodd Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Sir Ddinbych ar Addysg Grefyddol y 'Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol i rai 3-19 oed' fel y Maes Llafur Lleol y Cytunwyd Arno ar gyfer Sir Ddinbych yn 2008. Mae'r fframwaith yn parhau i fod yn sail i'r Maes Llafur y Cytunwyd Arno yn Sir Ddinbych. Bydd y Maes Llafur y Cytunwyd Arno'n cael ei adolygu unwaith y bydd canfyddiadau'r adolygiad cwricwlwm yn cael eu cyhoeddi.

Prif swyddogaeth Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol yw, '...cyngori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur y cytunwyd arno ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'. Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11 (1) (a)

Mae ysgolion yn parhau i ofyn am y ddogfen gynllunio 'Canllaw Cynhwysfawr i Addysg Grefyddol' ac 'Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen', sy'n ategu'r Maes Llafur y Cytunwyd arno, a'i defnyddio. Mae'r adnoddau ar gael ar Rwydwaith Hwb - Rhwydwaith Addysg Grefyddol Gogledd Cymru.

ii. Safonau

Adroddiadau Arholiadau

Oherwydd canllawiau newydd gan Lywodraeth Cymru ar y ffordd y cyflwynir data ac er mwyn osgoi cymharu ysgolion yn fympwyl, ni thrafododd aelodau ddata'r arholiadau ar gyfer yr arholiadau a safwyd yn 2019.

Adroddiadau Arolygu

O ganlyniad i fframwaith arolygu presennol Estyn nid oes sylwadau ar bob pwnc yn adroddiadau Estyn. Yn hytrach, mae'r aelodau'n cael gwybodaeth o'r adroddiadau sy'n ymwneud â sylwadau Estyn am y ddarpariaeth Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol mewn ysgolion. Gweler rhan c Cydaddoli – Darpariaeth Monitro - Adroddiadau Arolygon.

Hysbyswyd yr Aelodau o fwriad Estyn i roi'r gorau i arolygiadau safonol o fis Medi 2020-21 er mwyn rhoi amser i ysgolion baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd sy'n dechrau ym mis Medi 2022.

b. Dulliau addysgu

Mae'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol a'r Awdurdod Lleol wedi darparu dogfennau a deunyddiau cynhwysfawr i gefnogi'r Maes Llafur y Cytunwyd Arno, ac mae'r rhain yn cynnwys cyngor ar ddulliau addysgu a chyflwyno Addysg Grefyddol.

Nid oes cyngor wedi'i roi i ysgolion o ran dulliau addysgu yn 2019-20.

Dewis adnoddau addysgu

Nid yw'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol wedi cyngori ysgolion yn ffurfiol gyda'r mater o brynu adnoddau addysgu. Credir bod hwn yn fater i'r ysgolion eu hunain.

Roedd deunyddiau cymorth gan gynnwys gwersi a mynediad at adnoddau i ysgolion ar gael ar wahanol lwyfannau digidol a chawsant eu dosbarthu gan GwE yn ystod y cyfyngiadau a ddechreuodd ym mis Mawrth yn sgil Covid-19.

Darparu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon

Prifysgol Bangor: Rhoddodd Darlithydd mewn Addysg ac Arweinydd Ôl-raddedig ar gyfer yr Ysgol Addysg a Datblygiad Dynol gyflwyniad i'r aelodau a oedd yn dangos sut mae Caban (Partneriaeth Caer/Bangor Gogledd Cymru) yn hyfforddi athrawon yfory gan ganolbwyntio ar Addysg Grefyddol.

c) Cydaddoli

Monitro'r ddarpariaeth

Adroddiadau Arolygon

Fel rhan o'r broses fonitro, mae Adroddiadau Arolygon Estyn yn cael eu dadansoddi o ran y sylwadau ar gydaddoli a datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae'r rhain yn cael eu casglu a'u nodi gan CYSAG. Anfonir llythyrau i ysgolion ar ôl i'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol eu hystyried, yn canmol arfer da ac yn cynnig cefnogaeth yn ôl yr angen.

Dadansoddwyd 14 o adroddiadau Estyn ar gyfer cyfeiriadau penodol at Gydaddoliad neu ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol a'u trafod gan aelodau yn 2019-20. Dosbarthwyd sylwadau cadarnhaol ynghylch Cydaddoli neu ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol fel a ganlyn:

<i>Sylwadau Cadarnhaol mewn Meysydd Arolygu:</i>	<i>Nifer yr ysgolion</i>
Safonau	1
Lles ac agweddau at ddysgu	10
Profiadau Addysgu a Dysgu	2
Gofal, Cymorth ac Arweiniad	13

iii) Dogfennau Canllaw

Mae dogfennau canllaw a grëwyd yn ystod y blynyddoedd blaenorol yn parhau i fod ar gael i ysgolion gan gynnwys 'Canllaw Cynhwysfawr i Addysg Grefyddol' ac 'Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen'.

Trefnwyd bod deunyddiau cymorth gan gynnwys gwersi a mynediad at adnoddau i ysgolion yn ystod y cyfyngiadau a ddechreuodd ym mis Mawrth yn sgil Covid-19 ar gael ar wahanol lwyfannau digidol a chawsant eu dosbarthu gan GwE.

Gall athrawon ymuno â Rhwydwaith Hwb – Rhwydwaith Addysg Grefyddol Gogledd Cymru. Gellir gweld dogfennau canllaw o dudalen Hwb y Rhwydwaith.

iv) Yr adnoddau a argymhellwyd

Mae'r dogfennau canllaw y cyfeirir atynt uchod yn cynnwys cyfeiriadau at adnoddau sy'n werthfawr ac a argymhellwyd neu a werthuswyd gan athrawon mewn swydd. Hefyd, cynigir cyngor mewn ymateb i geisiadau penodol. Yn ogystal â hyn rhoddir gwybod i ysgolion am adnoddau drwy gyfrwng Newyddion Addysg Grefyddol sydd ar gael i bob ysgol yn electronig, ac maent hefyd yn gallu defnyddio Canolfan Genedlaethol Cymru ar gyfer adnoddau Addysg Grefyddol ym Mhrifysgol Bangor a Chanolfan Addysg Grefyddol y Santes Fair.

Crëwyd cylchlythyr blynyddol yn rhoi gwybod i ysgolion am wybodaeth bwysig am Addysg Grefyddol a'r cwricwlwm newydd, ond oherwydd COVID-19 nid oedd y cylchlythyr wedi'i anfon i ysgolion yn ystod y flwyddyn academaidd hon. Mae dolenni i adnoddau wedi'u cynnwys yn y cylchlythyr.

Mae deunyddiau hunan-arfarnu yn parhau i gael eu hyrwyddo ac maent ar gael ar wefan y Religious Education Quality Mark.

v) Hyfforddiant Mewn Swydd ar gyfer Cydaddoli

Nid oes unrhyw hyfforddiant mewn swydd wedi'i ddarparu ar gyfer Cydaddoli yn y flwyddyn academaidd bresennol.

vi) Gwerthuso effeithiolrwydd canllawiau

Nid oes gwerthusiad ffurfiol o'r deunydd canllaw gwreiddiol wedi'i wneud, ond mae ymatebion gan ysgolion i'r deunyddiau, a sylwadau a gafwyd drwy ymweliadau ysgol wedi dangos faint y mae'r ysgolion wedi gwerthfawrogi'r deunyddiau ac wedi'u defnyddio wrth gynllunio a gwella eu darpariaeth.

vii) Penderfyniadau

Nid oes unrhyw benderfyniad wedi'i wneud.

3) Materion Eraill

a) Lleol

Cyfarfu aelodau CYSAG ddwywaith yn ystod y flwyddyn academaidd, cynhaliwyd cyfarfod yr Hydref mewn ystafell gyfarfod ALL, cynhaliwyd cyfarfod y gwanwyn yn Ysgol Gatholig Crist y Gair yn y Rhyl.

b) Cenedlaethol

(i) Estyn:

Derbyniodd yr Aelodau adroddiadau ar ganfyddiadau arolygiadau ysgolion. Hysbyswyd yr Aelodau o fwriad Estyn i roi'r gorau i arolygiadau safonol yn 2020-21 er mwyn rhoi amser i ysgolion baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd sy'n dechrau ym mis Medi 2022. Rhoddodd Estyn y gorau i gynnal arolygiadau ym mis Mawrth 2020 oherwydd bod ysgolion yn ceisio ymdopi â phandemig COVID-19.

(ii) Yr Adran Addysg a Sgiliau:

Derbyniodd yr Aelodau adroddiad ar y Fframwaith Cefnogi Addysg Grefyddol Drafft. Mae'r fframwaith yn ychwanegiad i Gwricwlwm Cymru.

Trafododd yr Aelodau gan roi adborth ar ddau Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru –

1. Ymgynghoriad ar gynigion i sicrhau mynediad i'r cwricwlwm llawn i bob dysgwr.
2. Cwricwlwm Cymru: Crefydd, gwerthoedd a moeseg.

(iii) Cymdeithas Cyngorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru

Cynrychiolwyd aelodau'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol a'r Awdurdod Lleol mewn dau gyfarfod o Gymdeithas Cyngorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru, a derbyniwyd rhai o'r cyflwyniadau a wnaed. Parhaodd CYSAG i gael adroddiadau gan gynrychiolwyr a fynychodd cyfarfodydd y Gymdeithas, yn ogystal â derbyn cofnodion a phapurau gan Gymdeithas Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru.

(iv) Cwynion

Ni chafodd y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol unrhyw gwynion.

4. Atodiadau:

a) Cyfansoddiad y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol

Yn Cynrychioli Enwadau Crefyddol:

Yr Eglwys yng Nghymru

Jennie Downes

Catholig

Mary Ludenbach

Undeb y Bedyddwyr

Disgwyl am enwebiad (Cymraeg)

Disgwyl am enwebiad (Saesneg)

Presbyteraidd

Y Parchedig Brian H Jones (Cymraeg)

Christine Thomas (Saesneg)

Methodistiaid

Y Parchedig Martin Evans-Jones

Diwygiedig Unedig

Disgwyl am enwebiad

Undeb yr Annibynnwyr Cymraeg

Disgwyl am enwebiad

Cymdeithas Grefyddol y Cyfeillion

Dominic Oakes

Byddin yr Iachawdwriaeth

Captain Sian Radford

Mudiad Efengylaidd Cymru

Disgwyl am enwebiad

Cynrychioli Cymdeithasau Athrawon:

Pennaeth Uwchradd

Disgwyl am enwebiad

Pennaeth Iau

Disgwyl am enwebiad

Arbenigwyr Addysg Grefyddol Uwchradd

Cate Harmsworth

Pennaeth Babanod

Disgwyl am enwebiad

Athrawon Ysgol Arbennig

Ms.Ali Ballantyne

Athro Dosbarth Iau

Disgwyl am enwebiad

Athrawes Dosbarth Babanod

Disgwyl am enwebiad

Yn Cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych

Cynghorydd Ellie Chard

Cynghorydd Tony Flynn

Cynghorydd Emrys Wynne

Cynghorydd Rachel Flynn

Cynghorydd Tony Thomas

Aelodau Cyfetholedig:

Tania Ap Sion – Cyfarwyddwr Canolfan y Santes Fair

b) Nifer a dyddiadau cyfarfodydd

2 Cyfarfodydd CYSAG:

16 Hydref 2020

5 Chwefror 2020

c) Sefydliadau sy'n derbyn yr adroddiad

- DFES
- Mae'r adroddiad ar gael ar wefan Cymdeithas Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru i sefydliadau sydd â diddordeb.

Cyngor Sir Ddinbych Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)		
Dyddiad y Cyfarfod:		14 Hydref 2020
Eitem ar y Rhaglen:	6	DADANSODDIAD O ADRODDIADAU AROLYGU
<u><i>Cefndir yr Adroddiad:</i></u>		
<p>Mae'n ddyletswydd statudol ar y CYSAG i fonitro darpariaeth Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd mewn ysgolion. Mae ganddyn nhw draddodiad hir o dderbyn a dadansoddi adroddiadau arolygon Estyn ym mhob cyfarfod.</p>		
<u><i>Pwrpas yr Adroddiad:</i></u>		
<p>Rhoi gwybod i aelodau am ganlyniadau Adroddiadau Arolygon diweddar Estyn ar ysgolion.</p>		
<u><i>Argymhellion:</i></u>		
<ul style="list-style-type: none">▪ Derbyn yr adroddiad▪ Anfon llythyr i bob ysgol i roi gwybod iddyn nhw bod adroddiad o'u harolwg wedi'i ystyried, i'w llongyfarch am yr elfennau da a nodwyd ac i'w hatgoffa bod yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol a'r Swyddogion Gwella Ysgolion ar gael i gynorthwyo gydag unrhyw faes sydd angen ei ddatblygu neu unrhyw fater sydd angen mynd i'r afael ag ef▪ Gofyn i'r Awdurdod Lleol ddosbarthu'r llythyrau i'r ysgolion perthnasol		

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Dadansoddiad o Adroddiadau Arolygu CYSAG Sir Ddinbych

Hydref 2020

Adroddiadau a gyhoeddwyd Hydref 2019 – Haf 2020 – 4 ysgol

Ysgol	Dyddiadau
Ysgol Bryn Hedydd	Chwefror 2020
<p>Mae Ysgol Gynradd Bryn Hedydd yn nhref Y Rhyl yn Sir Ddinbych. Ar hyn o bryd mae 477 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr. Mae hyn yn cynnwys 58 o ddisgyblion meithrin rhan-amser. Mae 16 dosbarth yn yr ysgol. Y ganran gyfartalog ar gyfer disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim dros y dair mlynedd ddiwethaf yw oddeutu 12%, sydd yn is na'r cyfartaledd Cymreig o 18%. Mae'r ysgol yn nodi bod oddeutu 13% o'i disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, sydd yn is na'r cyfartaledd Cymreig o 21%. Mae bron pob un o'r disgyblion o ethnigrwydd gwyn Prydeinig ac o gartrefi lle mae Saesneg yn brif iaith. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf gartref. Mae'r pennaeth yn ei swydd ers Medi 2010. Dyddiad arolwg diwethaf yr ysgol oedd Tachwedd 2012.</p>	
Ysgol Cefn Meiriadog	Ionawr 2020
<p>Mae Ysgol Cefn Meiriadog ym mhentref Cefn Meiriadog, ger Llanelwy yn Sir Ddinbych. Mae 66 o ddisgyblion ar y gofrestr, sydd rhwng 3 ac 11 oed, ac mae hynny'n cynnwys 6 disgybl meithrin rhan amser. Mae tri dosbarth oedran cymysg yn yr ysgol. Saesneg yw prif iaith bron pob disgybl. Ychydig iawn o ddisgyblion a ddaw o gefndiroedd ethnig lleiafrifol. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref. Y cyfartaledd tair blynedd ar gyfer canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw 13%, sy'n is na chyfartaledd Cymru o 18%. Mae'r ysgol yn nodi bod oddeutu 18% o'i disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, sydd yn is na'r cyfartaledd Cymreig o 21%. Yn dilyn cyfnod o newid o ran arweinyddiaeth a staffio, mae'r pennaeth presennol yn ei swydd ers mis Ionawr 2020. Yn ystod yr arolwg, roedd un dosbarth yn cael ei ddysgu gan athro/athrawes dros dro. Cynhaliwyd arolwg diwethaf yr ysgol ym mis Hydref 2013.</p>	
Ysgol Fabanod Llanelwy.	Tachwedd 2019
<p>Mae Ysgol Fabanod yr Eglwys yng Nghymru a Reolir yn Wirfoddol Llanelwy yn Llanelwy, yn awdurdod lleol Sir Ddinbych. Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion rhwng tair a saith oed. Ar hyn o bryd, mae 91 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 26 sy'n mynychu'r dosbarth meithrin yn rhan-amser. Mae disgyblion yn cael eu dysgu mewn pedwar dosbarth un oedran. Mae'r cyfartaledd tair blynedd ar gyfer canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ychydig dros 22% sydd yn uwch na chyfartaledd Cymru (18%). Mae'r ysgol wedi nodi bod gan tua 28% o'i disgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru (21%). Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol neu sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf. Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Mehefin 2015. Daeth y pennaeth dros dro i'w swydd ym mis Medi 2018 a'r pennaeth cynorthwyol dros dro ym mis Mehefin 2019.</p>	
Ysgol Dyffryn Iâl	Hydref 2019
<p>Ysgol bentref yn Llandegla, Sir Ddinbych yw Ysgol Dyffryn Iâl. Mae'r ysgol dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru. Mae 50 o ddisgyblion yn yr ysgol sydd rhwng 3 ac 11 oed, gan gynnwys 6 disgybl rhan amser yn y dosbarth meithrin. Mae dau ddosbarth yn yr ysgol. Y ganran gyfartalog ar gyfer disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim dros y dair mlynedd ddiwethaf yw oddeutu 5%, sydd yn sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 18%. Mae'r holl ddisgyblion o gefndir ethnig gwyn. Mae'r ysgol yn nodi bod oddeutu 20% o'i disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, sydd yn agos at y cyfartaledd Cymreig o 21%. Mae'r pennaeth yn ei swydd ers mis Ionawr 2015. Dyddiad arolwg diwethaf yr ysgol oedd Mawrth 2015.</p>	

- Mae disgyblion blwyddyn 6 wedi cymryd rhan mewn prosiect dysgu byd-eang i ddatblygu cysylltiadau gydag ysgolion yn Sbaen a Rwmania. Mae'r disgyblion hyn hefyd wedi cymryd rhan mewn rhaglen i ddatblygu llysgenhadon gwych fel rhan o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. O ganlyniad, mae disgyblion ar draws yr ysgol yn dechrau datblygu fel dinasyddion moesegol, cydwybodol. (Ysgol Bryn Hedydd)
- Mae bron pob disgybl yn ymateb yn gadarnhaol i ddigwyddiadau codi arian. Er enghraifft, maent yn codi arian i'r ysgol ac i elusennau fel Plant Mewn Angen a'r banc bwyd lleol. Drwy'r gweithgareddau hyn, mae disgyblion yn cychwyn datblygu sgiliau entrepreneuriaidd da ac ymwybyddiaeth foesegol. (Ysgol Bryn Hedydd)
- Mae nhw'n falch eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau codi arian drwy drefnu boreau coffi a diwrnodau gwisgo i fyny i elusennol lleol a chenedlaethol, gan gynnwys yr hosbis lleol a Plant Mewn Angen. Mae hyn wedi cael effaith bositif ar ymwybyddiaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion ar anghenion eraill yn eu cymuned a'r byd ehangach. (Ysgol Cefn Meiriadog)
- Mae disgyblion yn falch eu bod yn cael cyfle i gefnogi amrywiol elusennau, ac maent wedi codi swm sylweddol o arian i hosbis lleol, Plant Mewn Angen, ac Apêl y Pabi. Mae hyn wedi cael effaith bositif ar ymwybyddiaeth y disgyblion o anghenion eraill yn eu cymuned a'r byd ehangach. (Ysgol Dyffryn Iâl)

Gofal, Cymorth ac Arweiniad

- Mae traddodiad cryf gan yr ysgol o gyfrannu tuag at ddigwyddiadau o fewn y gymuned leol. Maent yn cefnogi sawl elusen leol ac yn cymryd rhan mewn digwyddiadau yn y gymuned ehangach, fel canu yn seremoni Dydd y Cofio ar y traeth lleol, a chystadlu mewn digwyddiadau Nadoligaidd. Mae'r digwyddiadau hyn, a chysylltiadau gyda'r gymuned leol, yn cyfoethogi profiadau disgyblion ac yn cael dylanwad cadarnhaol o ran datblygu eu sgiliau cymdeithasol a diwylliannol. (Ysgol Bryn Hedydd)
- Drwy wasanaethau rheolaidd a gwaith cwricwlwm effeithiol, mae disgyblion yn dathlu amrywiaeth, ac yn datblygu eu dealltwriaeth ysbrydol, foesegol a chymdeithasol. Mae hyn yn eu galluogi i ddysgu yn llwyddiannus am bwysigrwydd gwerthoedd, fel ymddiriedaeth, dyfalbarhad a goddefgarwch. Mae'r ysgol yn annog ei disgyblion i fod yn ddinasyddion cyfrifol sy'n fodlon helpu eraill. (Ysgol Bryn Hedydd)
- Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesegol ac ysbrydol y disgyblion yn effeithiol drwy gyd-addoli, ac yn ystod gwersi. Mae athrawon yn hyrwyddo datblygiad diwylliannol disgyblion drwy amrywiaeth o weithgareddau cwricwlwm diddorol. (Ysgol Cefn Meiriadog)
- Mae'r ysgol wedi creu partneriaethau llwyddiannus gyda'r gymuned leol, sy'n cyfoethogi profiadau'r disgyblion yn llwyddiannus. Er enghraifft, cysylltiadau cryf gyda'r eglwys leol, lle bu disgyblion y cyfnod sylfaen yn cynnal priodas, ac roedd hynny o gymorth i ddatblygu eu sgiliau personol a chymdeithasol. (Ysgol Cefn Meiriadog)
- Mae'r rhain yn gyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymgysylltu mewn modd pwrpasol gyda'u cymuned leol. Mae disgyblion yn canu i drigolion cartref henoed lleol ac mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf gyda'r eglwys gadeiriol leol. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol creadigol. Er enghraifft, mae disgyblion yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn perfformiadau gan yr ysgol gyfan, a chyngherddau Nadolig a Dydd Gŵyl Dewi blyneddol. (Ysgol Fabanod Llanelwy).
- Mae sgiliau moesegol a chymdeithasol disgyblion yn datblygu'n llwyddiannus iawn. Mae ffocws gryf yr ysgol ar hyrwyddo disgwyliadau uchel a gwerthoedd yn annog disgyblion i gymryd cyfrifoldeb dros eu hymddygiad mewn ffordd aeddfed. (Ysgol Dyffryn Iâl)
- Mae parchu aml-ddiwylliant, hyrwyddo agweddau o amrywiaeth, gwrth-hiliaeth a datblygu tegwch a chyfleoedd cyfartal yn elfennau cryf o ddiwylliant yr ysgol. (Ysgol Dyffryn Iâl)

Cyngor Sir Ddinbych Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)		
Dyddiad y Cyfarfod:		14 Hydref 2020
Eitem ar y Rhaglen:	7	CWRICWLWM CYMRU
<u><i>Cefndir yr Adroddiad:</i></u>		
<p>Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu datblygu a dechrau cwricwlwm newydd yn 2022 ac wedi gwneud sawl newid deddfwriaethol. Gydag ond chwe thymor i baratoi, anogir ysgolion i gynllunio ar gyfer dechrau'r cwricwlwm newydd.</p>		
<u><i>Pwrpas yr Adroddiad:</i></u>		
<p>Darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r CYSAG am gynnydd paratoadau Llywodraeth Cymru ac ysgolion ar gyfer y cwricwlwm newydd.</p>		
<u><i>Argymhellion:</i></u>		
<ul style="list-style-type: none">○ Derbyn y diweddariad ar lafar○ Ystyried unrhyw ymateb priodol i'r materion a godwyd		

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag